

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 26 Medi, 2016 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr I Williams, (Cadeirydd), (Benllech B), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs J Peers, (Llanbedrgoch), Mrs D Roberts, (Benllech B).

69 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr J Cotterell, (Benllech A), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr R O Jones, (Benllech A), Miss N Williams, (Benllech B) .

70 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 22 Awst 2016.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD

71 Cyflwynwyd er gwybodaeth - gohebiaeth a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn a oedd yn ymateb i faterion priffyrdd a gyfeiriwyd ato gan y Cyngor Cymuned.

72 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan Aelodau – amrywiol faterion a oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

73 GRŴP CHWARAE BENLLECH.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan Grŵp Chwarae Benllech yn diolch am rodd ariannol y Cyngor Cymuned.

74 PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL.

Cyflwynwyd er gwybodaeth - llythyr gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cydnabod llythyr y Cyngor Cymuned a oedd yn datgan nad oedd y Cyngor wedi gwneud taliadau ariannol i aelodau yn ystod 2015/2016.

75 COMISIWN FFINIAU I GYMRU.

Cyflwynwyd - llythyr gan Gomisiwn Ffiniau i Gymru yn datgan cynigion cychwynnol ar gyfer newidiadau i etholaethau Seneddol yng Nghymru. Awgrymir uno etholaeth Ynys Môn gyda rhan o etholaeth Arfon i gyfarfod y gobaith o gael cyfartaledd o 73,000 o etholwyr ymhob sedd.

PENDERFYNWYD - ymateb i'r ymgynghoriad drwy ddatgan gwrthwynebiad i'r cynnig cychwynnol am resymau daearyddol a hanesyddol.

76 OMBWDSMON CYMRU – COD YMDDYGIAD.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Ombwdsmon Cymru yn cydnabod llythyr y Cyngor Cymuned a oedd yn cadarnhau mabwysiadu Cod Ymddygiad newydd a derbyn copïau dwyieithog o'r Cod newydd.

BILIAU A CHYFRIFON

77 BILIAU

PENDERFYNWYD - talu'r biliau a ganlyn :-

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fôn Parry	Gwasanaeth Cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Cwmni Teledu Cylch Cyfyng	Ail daliad o'r Prisiad	£20,216-23

78 CYFRIFON

Cyflwynwyd - cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Awst 2016.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyfrif a chymeradwyo'r taliadau.

79 CYLLIDEB Y CYNGOR.

Cyflwynwyd - manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu â'i gyllideb am y cyfnod o Ebrill 1, 2016 i ddiwedd mis Awst 2016.

PENDERFYNWYD – nodi a chymeradwyo'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

80 CYMDEITHAS CLERCOD LLYWODRAETH LEOL.

Tynnwyd sylw'r aelodau at erthygl yng nghylchgrawn Cymdeithas Clercod Llywodraeth Leol oedd yn cyfeirio at Archwiliad 2015/2016 ac yn arbennig tuag at themâu Archwiliad 2016/2017, sef y Gyflogres a Chod Ymddygiad Aelodau. Bydd angen i bob aelod arwyddo i gydnabod eu bod yng nghyd fynd a'r Cod newydd a fabwysiadwyd ganddynt ym mis Mawrth 2016.

PENDERFYNWYD – bod aelodau'r Cyngor Cymuned yn arwyddo rhestr gydymffurfio a'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd ym mis Mawrth eleni.

81 UWCHRADDIO'R SUSTEM TELEDU CYLCH CYFYNG.

Eglurwyd fod rhan gyntaf y gwaith uwchraddio yn symud ymlaen yn dda a bod camerâu newydd wedi eu gosod yn y pentref ac offer derbyn delweddau wedi ei sefydlu yng ngorsaf yr Heddlu ym Menllech. Roedd canmoliaeth gan yr Heddlu fod clirdeb y delweddau yn rhagorol a bod llwyddiant yn barod gydag atal troseddau. Mae peth gwaith eto i'w gwblhau, sef gosod arwyddion fod sustem teledu cylch cyfyng mewn bodolaeth mewn mannau priodol yn y pentref a chael cyngor arbenigwr i Edrych ar god ymarfer y Cyngor Cymuned berthnasol i ddefnyddio delweddau'r sustem teledu cylch cyfyng gan fod y ddeddfwriaeth wedi ei ddiwygio ers y sustem wreiddiol gael ei sefydlu.

Cadarnhaodd y Clerc fod cost y gwaith hyd yma wedi ei dalu o goffrau'r Cyngor. Bydd yr ail ran o'r gwaith, sef ymestyn y rhwydwaith i lan y môr yn cychwyn fis Ebrill 2017.

82 MAES CHWARAE CAER BERLLAN.

Trafodwyd y fandaliaeth o fewn y maes chwarae ac yn benodol y man diogelwch o gwmpas y cylchdro. Mae rhywun neu rywrai yn torri tyllau yn y gorchudd diogelwch i'r graddau fod cerrig yn dod i'r wyneb. Eglurodd y Clerc fod yr Heddlu yn cadw golwg gorau posib ond fod y broblem yn gwaethygu. Erbyn hyn mae twll maint pêl droed wedi ei wneud yn y gorchudd.

Disgwylir cwmni MacVenture o Langefni i atgyweirio'r gorchudd diogelwch o gwmpas amryw o'r atyniadau yn dilyn yr arolwg blynyddol a wnaed ym Mehefin gan Playsafety. Bydd y gost yma yn gannoedd o bunnoedd.

Teimlad yr aelodau oedd petai'r difrodi yn parhau buasai yn dangos ar y teledu cylch cyfyng.

83 LLYFRGELL BENLLECH.

Adroddodd y Clerc ddigwyddiadau'r cyfarfod a gynhaliwyd yn Amlwch i drafod dyfodol Llyfrgelloedd yr ynys. Eglurwyd fod llyfrgelloedd Caergybi a Llangefni yn parhau o dan ofal Cyngor Sir Ynys Môn gan eu bod yn cyfarfod canllawiau statudol.

Cyflwynodd y Cadeirydd, Dr Martin Price sef ymgynghorydd gyda phrofiad eang yn y trydydd sector a oedd wedi trosi nifer o lyfrgelloedd o ofal Awdurdodau lleol i grwpiau cymunedol. Rhoddodd Dr Price fraslun o'i gefndir ac aeth ymlaen i gasglu gwybodaeth gyffredinol gan bob cynrychiolydd yn y cyfarfod.

Y cam nesaf fydd cynnal Gweithdy i gynorthwyo cynghorau a chymunedau sut i symud ymlaen gyda sefydlu Llyfrgelloedd Cymunedol.

84 TOILEDAU DALGYLCH Y CYNGOR CYMUNED.

Trafodwyd ymhellach y sefyllfa parthed cynnig Cyngor Sir Ynys Môn i drosglwyddo toiledau'r dalgyrch i ofal y Cyngor Cymuned o dan brydles 60 mlynedd gyda rhent blynyddol o £1. Roedd y Cyngor Sir hefyd yn fodlon gwneud taliad blwyddyn gyntaf y denantiaeth o gost glanhau'r toiledau. Roedd rhaid gwneud penderfyniad erbyn 30 Medi 2016.

Roedd aelodau o'r farn fod adeilad toiled y sgwâr mewn cyflwr gwael ac angen gwaith cynnal a chadw arno. Hefyd roedd cryn ansicrwydd gyda threthiant toiled y Traeth ac roedd problem sylweddol gyda sistem garthffosiaeth toiled Traeth Coch.

PENDERFYNWYD - peidio â chytuno i symud ymlaen ar hyn o bryd er bod diddordeb i wneud yn parhau. Buasai'n rhaid cael yr eiddo mewn cyflwr boddhaol cyn gwneud unrhyw benderfyniad pellach.

CYNLLUNIO

85 CEISIADAU

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn:-

1. Caniatáu :

30C336E	Golden Sunset Caravan Park, Benllech
30C771A	Llys yr Onnen, Llanbedrgoch
30C460A	Glandŵr, Ffordd Bangor, Benllech
30C78G	7 Cae Cali, Brynteg

86 PENDERFYNIADAU

Adroddwyd er gwybodaeth - penderfyniadau cynllunio diweddar Gyngor Sir Ynys Môn.

Terfynwyd y Cyfarfod am 7-45 yr hwyr.